**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Iau, 16 o Fedi 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Haf Williams, Phillip Roberts, Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd,

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Beca Brown, Richard Robinson Berwyn Parry Jones

**Aelodau o'r Cyhoedd:** Elen Parry, Alys Parry Jones, Cath

**Clerc:** Meirion Jones

**869. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

**870. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**871. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**872. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

**Rhif y Cais:** C21/0831/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Datblygiad Preswyl o 8 annedd (yn cynnwys 4 ty fforddiadwy.
**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)
**Ymgeisydd:** Mr Alun Williams (Cefn Du Construction Ltd)
**Cyfeiriad:** Lleifior, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AN
**Cyfeirnod Grid:** 254032.31, 363254.31
**Ward:Llanrug**
**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol

- Pryder fod yr ysgol yn llawn yn barod ac ni fyddai yn gallu ymdopi gyda mwy o ddisgyblion.
- Problemau gyda carffosiaeth – fyddai'r system bresennol yn ddigonol
- Mynegwyd pryder am ddiogelwch yn enwedig gam fod ceir yn parcio gyferbyn a mynediad i Lleifior sydd yn golygu fod traffig sydd yn trafaelio o gyfeiriad Caernarfon i Llanberis yn tynnu allan i ganol y ffordd.
- Nodwyd fod problemau Cyfoeth Naturiol Cymru

- Mynegwyd pryder am ystlumod yn y safle
- Mae’r tai i gyd o’r un math gyda dim cymeriad iddynt fel eu bod yn gweddu i’r ardal
- Cytunwyd mai nid dyma’r lle i godi 8 tŷ yn Llanrug
- Mae’r cyngor eisoes wedi gwrthwynebu cais i godi 4 tŷ ger Glyntwrog
- Tydi Llanrug ddim angen 12 o dai ychwanegol (gyda cais am 4 tŷ ger Glyntwrog
- Nodwyd fod y ffordd yma yn briffordd rhwng Caernarfon ble mae gorsafoedd Tan, Ambiwlans a’r Heddlu ac mae trigolion sydd yn byw ar hyd y ffordd yn ymwybodol o pa mor amal mae’r gwasanaethau yma yn mynd drwy Llanrug i ardal Eryri. Byddai y fynedfa i’r 8 tŷ yn amharu ar hyn.
- Cytunwyd mai adnewyddu’r tŷ fyddai orau a’i droi yn dy teuluol
- Nodwyd a cytunwyd gyda gwrthwynebiad Ymddiriedolaeth Archaeoleg Gwynedd.
- Mae ceir yn gyrru ar hyd y ffordd yn barod.
- Nodwyd fod tai fforddiadwy yn cael eu adeiladu ond ni fanylwyd beth ydi ‘tŷ fforddiadwy’ – mynegwyd pryder fod caniatáu tŷ fforddiadwy yn cael ei gamddefnyddio.
- Nodwyd fod y datblygiad tu allan i’r ffin adeiladu.
- Fe gynhaliodd y cyngor cymuned gyfarfod arbennig i drafod y cais yma er rhoi digon a amser i bawb cael rhoi eu sylwadau, yn hytrach na’r gynnwys mewn cyfarfod misol o’r cyngor ble byddai yn bosib i cyfarfod orfod cael ei gwtogo oherwydd byddai yn ymestyn dros hyd y cyfarfod fel a nodir oddi fewn i’r rheolau sefydlog. Mae’r cyngor wedi ceisio barn y bobl leol am y datblygiad yma ac mae’r farn yn gryf i wrthwynebu’r cais. Yn ystod y cyfarfod heno, ni chafwyd neb naill ai yn aelod o’r cyngor neu’r cyhoedd yn cefnogi’r cais.

Yn sgil y rhesymau uchod mae’r cyngor cymuned yn gwrthwynebu’r cais yma yn gryf iawn

Daeth y cyfarfod I ben am 20:15

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 21 o Fedi 2021